



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Syr Thomas Jones
Pentrefelin
Amlwch
LL68 9TH**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Syr Thomas Jones

Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn ysgol gymunedol ddwyieithog i ddisgyblion rhwng 11 ac 18 oed a gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Ynys Môn. Mae 509 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gyda 75 yn y chweched dosbarth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, roedd 647 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 113 yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch o ryw 53 milltir sgwâr i ogledd-ddwyrain llinell o Draeth Coch, ar arfordir dwyrain Ynys Môn, trwy Frynteg, Llanerchymedd a Mynydd Mechell i Fae Cemlyn ar yr arfordir gogledd-orllewinol.

Mae gan tua 15.2% o'r disgyblion hawl i ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigur cenedlaethol, sef 16.4%. Mae 24% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 2% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn agos iawn i'r ffigur cenedlaethol.

Daw ychydig dros hanner o'r disgyblion o gartrefi lle Cymraeg yw iaith yr aelwyd ac mae 77% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd yn barhaol ers 2013. Yn dilyn ad-drefnu diweddar, mae uwch dîm arweinyddol yr ysgol yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth ac un pennaeth cynorthwyol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn gymuned hynod o ofalgar a chynhwysol. Mae'r pennaeth a'r holl staff yn arddel diwylliant o roi'r 'plentyn yn gyntaf bob amser'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn rhagorol ac yn barchus a chwrtais at eu hathrawon, ymwelwyr a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau â'u tasgau yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn siaradwyr naturiol a rhugl yn y ddwy iaith ac mae medrau llythrennedd y disgyblion hyn yn gryf. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llawer o bynciau.

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi arwain at safonau lles cadarn a lefel werthfawr o ofal a chymorth i ddisgyblion. Serch hyn, nid yw wedi sicrhau ansawdd cyson uchel i'r addysgu.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella safonau, yn enwedig ar gyfer y disgyblion mwy abl
- A2 Cryfhau ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol
- A3 Gwella effeithiolrwydd arweinwyr canol fel eu bod yn llwyr atebol am bob agwedd ar y ddarpariaeth a'r safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb

Beth sy'n digwydd nesaf

Dim mewn gweithgarwch dilynol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Ar eu taith drwy'r ysgol, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd cadarn yn eu dealltwriaeth, eu medrau pynciol a'u dwyieithrwydd. Mewn llawer o'r gwersi, mae'r disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn adeiladu ar hwn yn fuddiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus iawn wrth wrando ar yr athro a'u cyfoedion yn siarad ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn siaradwyr naturiol a rhugl yn y ddwy iaith, gyda'r mwyafrif yn cyfrannu'n synhwyrol a gofalus at drafodaethau. Mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu'n defnyddio geirfa gyfoethog a mynegiant a chystrawen aeddfed yn fedrus. Er enghraifft, yn y gwersi Saesneg, maent yn gallu cyfiawnhau eu dewis o dechnegau perswadiol, enghreifftio a dadansoddi yn effeithiol wrth drafod y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos medrau meddwl a medrau llafar sydd wedi'u datblygu'n dda iawn, er enghraifft wrth drafod a dadansoddi cyd-destun dyfyniadau o chwedl Branwen yn y gwersi Cymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn distyllu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol yn llwyddiannus ac yn dadansoddi testunau yn effeithiol, gan ddod i gasgliadau synhwyrol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y gwersi addysg grefyddol yn llwyddiannus wrth bwysu a mesur yr amrywiol safbwyntiau ynghlwm ag ymosodiad terfysgol Manceinion. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn fedrus i gynnwys ac arddull testunau llenyddol, er enghraifft wrth gymharu cerddi'n dathlu llwyddiant tim pêl-droed Cymru yn Ewro 2016. Mewn ychydig o wersi, lle mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau dadansoddol a rhesymegol, gwna'r disgyblion gynnydd cryf iawn. Er enghraifft, yn y gwersi Saesneg, mae disgyblion yn cymharu dwy gerdd, 'In Flanders' a 'Who's for the game?', yn effeithiol, er mwyn gallu ystyried y propaganda oedd yn denu milwyr i fynd i ymladd yn y rhyfel.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd, er enghraifft er mwyn lleisio barn ar fywyd a gwaith Martin Luther King yn y gwersi addysg grefyddol. Mae ychydig yn ysgrifennu'n greadigol a chreffus, yn defnyddio iaith ddisgrifiadol a throadau ymadrodd yn hyderus yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol yn y ddwy iaith. Yn ogystal, mae lleiafrif yn defnyddio yr iaith lafar wrth ysgrifennu mewn ffurfiau safonol ac yn defnyddio geirfa Saesneg wrth ysgrifennu'n Gymraeg ac i'r gwrthwyneb.

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn briodol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data'n gywir ac yn llunio graffiau a thablau addas i arddangos eu canlyniadau, er enghraifft wrth gymharu hinsawdd Caernarfon a Blaenau Ffestiniog yn y gwersi daearyddiaeth. Serch hynny, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau mewn pynciau perthnasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i brosesu geiriau, creu cyflwyniadau a thrin data mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu huwch fedrau

TGCh, er enghraifft drwy ymdrin â thaenlenni a chronfeydd data mewn gwahanol bynciau.

Mae creadigrwydd disgyblion yn nodwedd gref. Ceir enghreifftiau niferus o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ar draws ystod o bynciau. Er enghraifft, mewn gwersi technoleg, mae disgyblion yn defnyddio amryw beiriannau llifio a drilio, gwaith llaw a rhaglenni TGCh er mwyn cynllunio a chreu masgiau Affricanaidd. Mae disgyblion yn y gwersi technoleg bwyd yn cynhyrchu blog fideo sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i goginio bwydydd amrywiol megis pastai ffesant. Maent hefyd yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft wrth greu patrymau llif effeithiol yn gyfuniad o siapiau a chydbwysedd mewn gwersi gymnasteg.

Mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 4 mewn llawer o ddangosyddion pwysig yn amrywiol iawn dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r perfformiad yn y dangosydd lefel 2, sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn gryf am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae'r sgôr pwyntiau hefyd wedi amrywio ond mae'n is nag ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau 2018 sydd heb eu gwirio yn awgrymu bod perfformiad disgyblion yn y dangosyddion uchod yn is nag ysgolion tebyg eraill.

Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth wedi amrywio dros amser ond, yn gyffredinol, mae'n is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad merched dros y tair blynedd diwethaf yn y prif ddangosyddion yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae deilliannau'r bechgyn a'r disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn is na chyfartaledd mewn ysgolion tebyg mewn llawer o'r prif ddangosyddion yn y tair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf iawn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster ers dros bedair blynedd.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cymysg yn eu pynciau dewisol yn y chweched dosbarth. Dros amser, mae perfformiad y disgyblion yn y trothwy lefel 3, y sgôr pwyntiau ehangach, a'r cyfran sy'n ennill 3 gradd A*-C yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Serch hyn, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill 3 gradd A*-A neu gyfwerth yn uwch nag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'u gallu i ymdrin â materion cymhleth yn fedrus wrth ddilyn eu cyrsiau.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Nodwedd arbennig o ddisgyblion Ysgol Syr Thomas Jones yw eu hagweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol a'u haddysg. Maent yn ddisgyblion diymhongar iawn, yn barchus a chwrtais ac yn ymroi i waith a bywyd yr ysgol yn dawel a gwylaidd. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n llawn trwy gydol y gwersi ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn llwyddiannus.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf ohonynt yn dda iawn o fewn eu gwersi, mewn gwasanaethau ac o amgylch yr ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym. Maent hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac yn dangos parch tuag at gyfraniadau pobl eraill ac yn ystyriol o safbwyntiau gwahanol.

Mae safonau lles yn uchel yn yr ysgol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n hyderus fod athrawon a staff eraill yn delio'n dda iawn ag unrhyw broblemau all godi.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'n fawr yr arlwy amrywiol o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael mewn sesiynau boreol, yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn glir bwysigrwydd bwyta a chadw'n iach.

Mae disgyblion yr ysgol yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Er enghraifft, mae rhai o'r disgyblion hŷn yn helpu disgyblion iau gyda'u medrau iaith Gymraeg er mwyn caffael yr iaith, yn ogystal ag arwain sesiynau hyfforddi aml-chwaraeon. Caiff y cyngor ysgol effaith briodol ar ychydig o agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft wrth gyfrannu at sefydlu ffynhonnau dŵr mewnol ac allanol, ac argymell ardaloedd priodol i osod camerâu diogelwch. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw llais y disgybl yn dylanwadu'n ddigon cryf mewn penderfyniadau ynglŷn â chyfeiriad yr ysgol, gan gynnwys agweddau ar ddysgu ac addysgu.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n gadarnhaol dros amser ac yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfraddau presenoldeb mewn ysgolion tebyg.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Digionol ac angen gwella

Mae'r rhan fwyaf o athrawon Ysgol Syr Thomas Jones yn llwyddo i sefydlu awyrgylch gynhwysol a chartrefol yn eu dosbarthiadau. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda.

Yn y mwyafrif o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn briodol ac yn eu hysgogi i gyflawni'n dda. Mae cyflymdra da i'r gwersi hyn, mae'r tasgau'n gydlynus ac, o ganyniad, mae'r disgyblion ar waith drwyddi draw.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar er mwyn eu galluogi i ddyfnhau eu dealltwriaeth a'u herio i ddatblygu'u hymatebion llafar. Mewn ychydig o wersi, mae gan yr addysgu nodweddiad rhagorol. Mae'r addysgu'n frwdfrydig a chreadigol. Caiff disgyblion eu hysbrydoli i ddyfalbarhau ac, o ganlyniad, fe wnânt gynnydd arwyddocaol o'u manau cychwyn.

Mewn lleiafrif o wersi, fodd bynnag, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel, yn enwedig o ran disgyblion mwyafrif galluog. Nid yw gweithgareddau'n herio'r disgyblion yn ddigonol ac mae tasgau yn rhy ailadroddus yn aml. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cyfateb yn ddigon da i anghenion a galluoedd disgyblion. Nid yw tempo'r gwersi hyn yn briodol gan nad yw'n sicrhau cyfleoedd i wirio bod disgyblion yn deall y gwaith. Mewn ychydig o wersi, mae cyflwyniadau'r athrawon yn rhy hir ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a'r cyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ddatblygu eu medrau annibynnol.

Mae llawer o athrawon yn monitro cynnydd eu disgyblion yn gyson trwy gydol y wers trwy gylchu'r dosbarth yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth adeiladol ar waith disgyblion yn ogystal ac yn esbonio'n glir yr hyn sydd angen ei wneud i wella. Nid yw

y chydig o athrawon, fodd bynnag, yn gwirio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon manwl mewn gwersi ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ymateb yn gynhyrchiol i sylwadau er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

Mae arweinwyr yr ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn diwallu anghenion a dyheadau disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Canlyniad hyn yw bod y cwricwlwm yn adeiladu'n gadarn ar fedrau a lles disgyblion wrth iddyn nhw drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy gyfoethog o ddewisiadau pynciol perthnasol i'w disgyblion. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill a choleg addysg bellach lleol er mwyn cynnig darpariaeth eang o gyrsiau yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys ystod eang o bynciau TGAU ynghyd â chyfleoedd i ddilyn cyrsiau galwedigaethol defnyddiol mewn pynciau fel peirianeg, adeiladwaith a lletygarwch ac arlwyfaeth. Mae hyn yn ymateb yn bwrpasol i ofynion y farchnad lafur leol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda chyflogwyr lleol er mwyn cynnig profiadau gwaith buddiol i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth dysgu gwerthfawr er mwyn cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Serch hynny, nid yw trefniadau'r ysgol i ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf abl, gan gynnwys y rhaglenni dysgu newydd, wedi eu sefydlu'n gadarn.

Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen werthfawr o brofiadau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig rhaglen lawn o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol buddiol. Mae'r 'Wythnos Her' yn nhymor yr haf yn cynnig profiadau amrywiol a chyfoethog i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, caiff disgyblion Blwyddyn 7 gyfle i godi pebyll a gwerysyla a chyflawni nifer o dasgau awyr agored amrywiol.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'n fanwl er mwyn datblygu medrau'r disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn wedi eu plethu'n ofalus i'r rhaglenni dysgu newydd. Mae'r mwyafrif o bynciau yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Cynigir darpariaeth werthfawr er mwyn ceisio gwella medrau darllen dwyieithog disgyblion yn nghyfnod allweddol 3. Mae'r cynllun hwn yn elwa ar gyfraniad aeddfed a gwerthfawr disgyblion hŷn yr ysgol.

Mae cynlluniau pwrpasol yr ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd mewn lleiafrif o bynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol gynlluniau buddiol ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn ogystal. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn gyson ar draws yr ysgol ar hyn o bryd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer gweithredu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo Cymreictod a meithrin medrau disgyblion yn y Gymraeg yn briodol. Mae polisi iaith yr ysgol yn sicrhau dilyniant ieithyddol llyfn rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Serch hynny, mae mwyafrif y disgyblion yn dewis astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Saesneg yng nghyfnodau allweddol 4 a 5.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn gymuned agos sydd yn cynnig cymorth ac arweiniad gofalgwr i ddisgyblion wedi ei seilio ar oddefgarwch a pharch. Mae rhoi'r plentyn yn gyntaf yn greiddiol i weledigaeth, gwaith ac ethos yr ysgol. Mae awyrgylch gynhwysol a chefnogol yn perthyn i'r ysgol sydd yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, lles a chynnydd disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog ac yn dangos parch at ei gilydd ac eraill.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu a chorfforol yn derbyn cefnogaeth werthfawr. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn sicrhau mynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol, lle bo'n briodol, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn. Gwneir defnydd effeithiol o gymorthyddion ynghyd â myfyrwyr y chweched dosbarth i ddarparu cefnogaeth ac ymyrraeth fuddiol i'r disgyblion hyn. Mae'r cymorthyddion yn cael eu cysylltu fel mentor buddiol i bob disgybl sydd ag anghenion, gan gynnal cyfarfodydd mentora defnyddiol yn rheolaidd. Mae adolygiadau blynyddol trylwyr, pwrpasol a phersonol yn cael eu cynnal ar gyfer disgyblion anghenion dysgu ychwanegol unigol, gyda'r disgyblion a'u teuluoedd yn rhan lawn o'r broses.

Ceir system olrhain cynnydd effeithiol gan yr ysgol. Gwneir defnydd buddiol o'r wybodaeth hon gan yr anogwr dysgu mewn cydweithrediad â'r tîm arweinyddol estynedig i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ac i ddarparu ymyrraeth bwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd yn tangyflawni. Efen werthfawr yw dull yr ysgol o rannu'r wybodaeth am arddulliau dysgu disgyblion unigol. Rhoddir arweiniad defnyddiol i bob disgybl ynghyd â'u dewisiadau a'u llwybrau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn ddigon miniog wrth arfarnu deilliant y gwaith olrhain ynghyd ag effaith ac addasrwydd yr holl ymyrraethau.

Mae'r arweinydd cynhwysiant a'r arweinwyr blwyddyn yn monitro ac olrhain ymddygiad a phresenoldeb disgyblion yn effeithiol drwy gyfrwng strwythurau defnyddiol. Caiff y graddau ymdrech, cyfraddau presenoldeb a gwybodaeth gan ddisgyblion, staff a rhieni eu defnyddio yn bwrpasol i sicrhau cefnogaeth addas i unigolion. Mae'r ddarpariaeth yn yr ystafell gynhwysol 'Hafan Hybu' gan y cynhellydd ac asiantaethau allanol yn darparu cefnogaeth lles emosiynol a chymdeithasol ddefnyddiol i ddisgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda gyda rhieni a gofalgwyr sydd yn cynnwys adroddiadau clir ar gynnydd eu plentyn a defnydd o ddulliau electroneg llwyddiannus o gyfathrebu am waith cartref.

Deilliant gwerthfawr o waith gymuned ddysgu broffesiynol yw'r 'Dangosfwrdd' sy'n sicrhau rhannu gwybodaeth drylwyr a chydweithio effeithiol iawn rhwng staff penodol er mwyn cefnogi'r disgybl unigol. Trwy hyn, ceir dilyniant a chydlyniant pwrpasol er mwyn sicrhau'r gefnogaeth orau i'r plentyn.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion drwy wasanaethau, rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a Bagloriaeth Cymru. Cyfoethogir y ddarpariaeth gan gysylltiadau ag asiantaethau a gwasanaethau megis 'Mind', 'Gobaith Môn' a swyddog cefnogi gymunedol yr heddlu. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gynyddu eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o sut i fyw'n iach.

Drwy waith y cyngor ysgol, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud ag amgylchedd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r systemau presennol yn caniatáu i ddisgyblion ddylanwadu'n llawn ar fywyd a gwaith ehangach yr ysgol, er enghraifft beth a sut maent yn dysgu.

Mae'r trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol, didwyll ac egniol. Mae ganddo weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod y 'plentyn gyntaf bob amser'. Drwy gydweithio'n gynhwysol gyda'r holl staff, mae'r weledigaeth hon wedi treiddio drwy'r holl agweddau ar waith yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at ymdeimlad cryf o falchder cymunedol ymysg y staff a'r disgyblion. Mae arweiniad clir y pennaeth wedi sicrhau cyfraddau presenoldeb uchel a chefnogi disgyblion i gyrraedd eu nod drwy feithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n agos i gefnogi'r pennaeth er mwyn hyrwyddo lles a balchder mewn ethos gofalgarn a theuluol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro i wella cysondeb rheolaeth ar draws y meysydd dysgu a phrofiad ac ymateb i'r diffyg cyllidol. Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain yn glir ac yn ddealladwy i bawb. Mae aelod ychwanegol wedi ei benodi i'r tîm yn ddiweddar i ganolbwyntio'n benodol ar wella safonau dysgu ac ansawdd yr addysgu. Er bod y cyfrifoldebau'n glir, nid ydynt wedi eu dosbarthu'n gytbwys o ran cyfrifoldebau rheolaeth llinell ac mae'n cyfyngu ar eu hamser i fynd i'r afael yn llawn ag agweddau pwyisg yn yr ysgol.

Wedi'r ailstrwythuro, mae'r arweinwyr canol yn deall eu rolau ac yn datblygu'n briodol fel arweinwyr. Maent yn datblygu'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldeb nhw i godi safonau dysgu ac addysgu yn eu meysydd penodol. Serch hynny, mae effeithiolrwydd yr arweinwyr canol i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn amrywio.

Mae'r corff llywodraethol yn angerddol yn eu gofal am fudd yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol. Maent yn chwarae rôl cyfaill beirniadol sy'n cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i reoli'r ddyled ond mae dyled uchel yn parhau. Serch hynny, mae'r ysgol wedi llwyddo i gynnal y cwricwlwm llawn yn cynnwys arlwy eang o opsiynau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn yn cynnwys cydweithio agos gyda phartneriaid eraill i gyflwyno ystod eang o opsiynau yng nghyfnod allweddol 5. Gwna'r ysgol ddefnydd buddiol o grantiau i gynorthwyo cyflawniad disgyblion mwyaf bregus yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi grymuso ei rhaglen sicrhau ansawdd sydd yn sail gadarn ar gyfer ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Caiff y rhaglen hon ei gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella, er enghraifft dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a fforymau holi disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol wrth adolygu perfformiad adrannau a monitro cynnydd dilynol. Mae'r meysydd datblygu yn deillio'n glir o ganfyddiadau'r arfarnu ar lefel ysgol a meysydd dysgu a phrofiad. Yn ogystal, mae'r cyfnodau asesu'n gytûn ar draws y meysydd dysgu er mwyn monitro cynnydd.

Mae cynlluniau gwella'r ysgol a meysydd dysgu a phrofiad yn talu sylw priodol i gynnydd disgyblion ac i wella safonau addysgu. Mae blaenoriaethau'r ysgol gyfan yn addas ac mae cynlluniau gwella'r meysydd dysgu a phrofiad yn ymateb yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithredoedd yn y meysydd datblygu bob amser yn ddigon miniog er mwyn codi safonau disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. Mae prosesau cadarn a chllir gan yr ysgol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.

Mae amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu'n glir gyda blaenoriaethau'r ysgol gyfan. Mae'r targedau'n fesuradwy a chynhwysir camau clir i gefnogi dysgu proffesiynol athrawon i'w cyrraedd.

Ceir ethos cynhaliol a diwylliant o gefnogi dysgu proffesiynol yn yr ysgol. Caiff athrawon gyfle i elwa o ystod o weithgareddau gwerthfawr drwy gyfrannu mewn sesiynau rhannu arfer dda yn yr ysgol ac yn sirol. Mae gwaith y gweithgorau dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion ac yn dechrau cael effaith ar safon yr addysgu. Er enghraifft, datblygwyd defnydd o ap gwaith cartref gan un o'r gweithgorau hyn er mwyn cyfathrebu'n unionsyth gyda'r rhieni.

Ceir cyfleodd buddiol i gydweithio gydag athrawon eraill ysgolion yr ynys mewn rhwydwaith sirol o'r enw 'Camu' er mwyn dysgu mwy a rhannu arfer dda am ddulliau i wella safonau dysgu ac addysgu. Yn ogystal, mae rhai athrawon yn arwain ar feysydd penodol ar y cwricwlwm yn sirol ac yn rhanbarthol, er enghraifft athrawon addysg grefyddol a thechnoleg bwyd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a gwariant yn ofalus. Mae ganddynt strategaeth gyllido bwrpasol lle mae cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae gan yr ysgol ddyled ariannol gyfredol sydd wedi ei thrwyddedu gan yr awdurdod addysg lleol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau i gynorthwyo cyflawniad disgyblion mwyaf bregus yr ysgol.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2018